



ADRODDIAD EFFAITH 2025/2026

EIN STORI YNGHYLCH GOBAITH

**REWILDING
BRITAIN**



CYNNWYS

Rhagair	3
Y flwyddyn yn ôl effaith	4
Ein gweledigaeth	5
Dad-ddofi'r system	7
Ein gweledigaeth, ein cenhadaeth a'n huchelgais	9
Ein heffaith	10
Cyhoeddus: Normaleiddio dad-ddofi	11
Pŵer: Galluogi dad-ddofi	17
Ymarfer: Arloesi ac ehangu dad-ddofi	25
Straeon ynghylch newid 	
Ysgogi grym pobl ar gyfer dad-ddofi	15
Llywio dyfodol llai dof i Gymru	21
Dangos effaith dad-ddofi	23
Plannu dyfodol dad-ddofi	30
Cyflymu adfer byd natur ar raddfa fawr	32
Ein sylfeini	35
Cryfhau ein sylfeini	36
Crynodeb ariannol	39
Ein dyfodol	40
Y flwyddyn nesaf	41
Cymryd rhan	42
Diolchiadau	43





RHAGAIR

Mae dad-ddofi yn stori ynghylch gobaith. O'n coedwigoedd i'n gwlyptiroedd, ar hyd ein harfordiroedd ac o fewn ein cymunedau, gall rhoi'r awenau i fyd natur arwain unwaith eto ein helpu i fynd i'r afael â'r heriau mwyaf a gwaethaf erioed. Weithiau gallai deimlo'n hawdd colli gobaith. Mae cyllid yn fwy tynn, gwleidyddiaeth yn fwy gelyniaethus, ac mae byd natur a'r hinsawdd yn cael eu tynnu i ddadleuon nad y nhw oedd eu gwraidd yn llawer yn rhy aml. Ac eto, wrth i ni fyfyrrio ar flwyddyn gyntaf ein strategaeth Wild by Nature, gallwn weld sut y mae newid y system yn bosibl, cyhyd ag ein bod ni'n gweithio gyda'n gilydd a gweithio ar bob elfen ohoni.



Rebecca Wrigley
Prif Weithredwr
Rewilding Britain



Rachel Evatt
Cadeirydd Interim
Rewilding Britain

Ers degawd, rydym wedi gweithio â phobl o'r tair cenedl, yn ogystal ag ymgysylltu â nhw, dysgu ganddynt a chael ein hysbrydoli ganddynt i ennill y ddealltwriaeth orau o sut y gallem fynd i'r afael â heriau ein hoes. Rydym wedi deall sut y gallai ein sefydliad wneud y gwahaniaeth mwyaf drwy newid y system, yn hytrach na gwneud mân newidiadau. Roedd y strategaeth 2025-30 y bu i ni ei chyhoeddi ychydig dros flwyddyn yn ôl ynghylch cyfleu'r dull rydym wedi ei ddatblygu yn ystod y 10 mlynedd ddiwethaf, ac mae wedi rhoi'r cyfrwng i ni rannu sut a pham rydym yn gweithio.

Mae wedi rhoi diben cyffredin a'r hyder i'n tîm fynd amdani a dod o hyd i ddatrysiadau arloesol yng nghanol dull cymhleth ar gyfer problem gymhleth. Mae ein gweledigaeth yn amlwg i ni, sef Prydain lle y mae 30% o'r tir a'r môr wedi'u dad-ddofi, ac adfer byd natur tan y gall ofalu am ei hun - a ni - unwaith eto. Prydain sy'n dod â chymunedau ynghyd i ganfod gwaith, byw a ffynnu mewn ecosystemau llewyrchus, ac sy'n creu economïau bywiog sy'n seiliedig ar fyd natur.

Os oes un wers yn amlwg, yna honno yw mai cysylltiadau yw'r gwreiddiau y mae gweddill ein gwaith yn tyfu ohonynt. Fel sefydliad nad yw'n berchen ar dir nac yn rheoli tir, ein cryfder yw dod â phobl eraill ynghyd, gan weithio gyda phartneriaid i gyflawni llawer yn rhagor nag y gallem ar ein pen ein hun. Wrth i ragor o bobl gydnabod bod colli byd natur ymhlith un o'r risgiau mwyaf difrifol sy'n ein hwynebu, mae'r reddf gydweithredol wedi ein rhoi mewn sefyllfa dda i helpu i arwain y ffordd o ran adfer.

Ar y tudalennau nesaf, cewch ddarllen sut rydym yn datblygu mudiad a sut rydym wedi troi cefnogaeth yn gamau gweithredu gwleidyddol ar draws Cymru, Lloegr a'r Alban. Cewch wybod sut rydym wedi helpu dad-ddofi i ffynnu yn y byd go iawn, ar y tir ac yn y môr. Yn ogystal â hyn, cewch ddysgu am y cyllid, y cynghreiriau a'r dystiolaeth sy'n gyfrifol am bob newid yn y system, ynghyd â'r sylfeini rydym wedi eu cryfhau i gynnal ein gwaith, a'n camau nesaf.

Roedd blwyddyn gyntaf y strategaeth Wild by Nature, ynghylch meithrin y sylfeini hynny, ond mae'r hyn sydd nesaf ynghylch cyflymu, a throi cynnydd cynnar yn effaith ddyfnach ar gyfer byd natur, yr hinsawdd a chymunedau. Mae hyn oll yn bosibl oherwydd ein rhoddwyr, ein partneriaid a'n cefnogwyr. Mae ail-lunio system yn waith tîm, a thros ddegawd yn ddiweddarach, rydym yn fwy sicr nag erioed y gall ein dull lwyddo.

**"MAE AIL-LUNIO SYSTEM
YN WAITH TÎM, A
THROS DDEGAWD YN
DDIWEDDARACH, RYDYM
YN FWY SICR NAG
ERIOED Y GALL EIN DULL
LWYDDO."**





Y FLWYDDYN YN ÔL EFFAITH

Ym mlwyddyn gyntaf ein strategaeth newydd, rydym wedi ysgogi cymunedau, dylanwadu ar bolisi a chyflymu'r gwaith o adfer natur ledled Prydain.



DATBLYGU MUDIAD DAD-DDOFI

WEDI CYRRAEDD CHWE MILIWN O BOBL

Llwyddon ni i ennyn sylw miliynau o bobl ledled y wlad drwy ein hymgyrch, gan **dyfu ein cronfa gefnogwyr 25%** (i 67,000+) a llunio **7,100 o e-byst** i erfyn ar Aelodau Seneddol i wthio dad-ddofi - gan feithrin cysylltiadau allweddol â llunwyr polisi a meithrin mudiad yn barod i weithredu.

DEGAWD O GYNNYDD GWYLLT

Fe ddathlon ni **10 mlynedd gydag** ymgyrchwyr a chefnogwyr, gan nodi ein taith, o syniad arbenigol hyd at fudiad cenedlaethol, gan sefydlu'r angen brys am fuddsoddiad gwleidyddol, a meithrin momentwm ar gyfer y degawd nesaf.

CYMUNED BWERUS O GEFNOGWYR

Fe wnaethom ysgogi **3,290 o roddwyr** a gyfrannodd **£2.3 miliwn** i gyflymu ein gwaith - sy'n dangos ymddiriedaeth ddofn yn ein mudiad a sicrhau cyllid cadarn, hyblyg i ehangu dad-ddofi ledled y wlad.



TROI'R DEIAL GWLEIDYDDOL

GOSOD DAD-DDOFI AR FAP DEFRA

Fe **ymgysyllton ni â 6,000+ o gefnogwyr**, gan gynhyrchu pedwar allan o bump o'r e-byst ymgynghori a gafodd Defra, i helpu i sicrhau fframwaith lle y mae **6% o dir Lloegr** yn cael ei nodi ar gyfer pontio'n bennaf i adfer byd natur a'r hinsawdd.

SICRHAU DIWYGIADAU BEIDDGAR I'R ALBAN

Dylanwadon ni ar y Bil Diwygio Tir i fynnu cynlluniau bioamrywiaeth tiffeddianwyr, cyd-gynhalion ni Hustyngau Dad-ddofi cyntaf y wlad, a chawsom dros **10,000 o lofnodion** ar gyfer y Siarter Cenedl Dad-ddofi - gan lywio dyfodol mwy beiddgar i fydd natur yr Alban.

SEFYDLU Ffordd CYMRU O DDAD-DDOFI

Cyd-sefydlon ni Cynghrair Ailwylltio Cymru i ymgyrchu gyda'n gilydd, gan lansio'r adroddiad Gwylltio: y **ffordd Gymreig** a sicrhau cydnabyddiaeth ffurfiol o ddad-ddofi gan Cyfoeth Naturiol Cymru ar gyfer gwaith hollbwysig i adfer arfordiroedd.



EHANGU AC ARLOESI

MOMENTWM AR Y TIR AC YN Y MÔR

Ehangon ni ein Rhwydwaith Dad-ddofi i gefnogi **1,000 o ymarferwyr** gyda'u gwaith adfer **260,000 hectar** o dir a **500+ km²** o fôr - mae eu straeon a'u dealltwriaeth yn dangos bod dad-ddofi yn gweithio ar y tir.

PWERU DAD-DDOFI

Sicrhau ni dros **£1 miliwn o gyllid sbarduno** ar gyfer 86 o brosiectau Cronfa Arloesi Dad-ddofi, gan chwalu rhwystrau arwyddocaol yn ystod y camau cynnar, a dyfarnon ni'r **Gronfa Her Dad-ddofi £100,000** flynyddol i bedwerydd prosiect, a oedd yn dangos partneriaeth adfer uchelgeisiol, ar raddfa tirwedd, ar waith.

MESUR EFFAITH GO IAWN

Datblygon ni, treialon ni a chyhoeddnon ni Fframwaith Monitro Dad-ddofi cyntaf y DU i roi'r **dystiolaeth ecolegol, gymdeithasol, ac economaidd hanfodol** i ymarferwyr a chyrrff amgylcheddol sydd ei hangen i berswadio llunwyr penderfyniadau ac amheuwyr.





EIN GWELEDIGAETH

Y SYSTEM RYDYM EISIAU EI NEWID



Y SYSTEM RYDYM EISIAU EI NEWID

Dad-ddofi yw un o'r ffyrdd mwyaf pwerus o adfer byd natur, mynd i'r afael â chwalfa'r hinsawdd ac adfywio cymunedau. Mae'r cyfle'n enfawr, ac eto rydym yn amcangyfrif mai 6% yn unig o dir a môr Prydain sy'n cael eu rheoli'n effeithiol ar gyfer byd natur (a hyd yn oed yn llai yn cael eu dad-ddofi). Mae'r ffigwr hwn yn bell iawn o'r 30% sydd ei angen ar fydd natur.

Dyma'r bwlch y mae Rewilding Britain am fynd i'r afael ag ef. Nid yw arafu dirywiad byd natur yn ddigon. Y nod yw adfer a dad-ddofi'r byd naturiol. Yn ogystal ag annog amrywiaeth toreithiog o gynefinoedd a rhywogaethau ffyniannus, bydd hyn hefyd yn cyflawni buddion go iawn i bobl a chymunedau.

Mae'r heriau a ddaw i'n rhan yn gysylltiedig, sy'n cynnwys y ddealltwriaeth o ddad-ddofi a'r rheolau a'r cyllid sy'n llywio sut y caiff tir a môr eu defnyddio, ac ynghlwm wrth ymarfer pob dydd y sawl sy'n eu rheoli. Ochr yn ochr â gwrthdroi dirywiad byd natur, mae dad-ddofi ynghylch ail-lunio'r systemau sy'n rheoli ein perthynas â'r byd o'n cwmpas.

Wrth i ni ysgrifennu'r geiriau hyn, mae amgylchiadau'n anodd. Ar hyd a lled Cymru, Lloegr a'r Alban, mae ansefydlogrwydd gwleidyddol a sefyllfa gyllido ansicr yn golygu

bod sicrhau ymrwymiadau hirdymor yn fwy anodd. Caiff byd natur a'r hinsawdd eu tynnu fwyfwy i ryfeloedd diwylliant, ac ni ellir cymryd yr ewyllys gwleidyddol i weithredu yn ganiataol.

Ar lwyfan ryngwladol, methodd Cynhadledd Newid Hinsawdd y Cenhedloedd Unedig (COP30) 2025 â chyflawni'r camau trawsnewidiol sydd eu hangen, gan ffafrio systemau'r farchnad garbon yn hytrach na datrysiadau cyfoethogi bioamrywiaeth, dan arweiniad cymuned, megis dad-ddofi.

Yma, mae Cynllun diwygiedig Gwellar Amgylchedd Llywodraeth y DU yn anghymesur i raddfa'r argyfwng bioamrywiaeth. Ar yr un pryd, mae'r llywodraeth hefyd yn cael ei hymchwilio gan Swyddfa Diogelu'r Amgylchedd gan nad yw wedi cymryd camau ystyrlon i gyflawni ei thargedau dan Strategaeth Forol y DU. Yn yr Alban, mae gan Strategaeth Amgylcheddol gyntaf y wlad weledigaeth uchelgeisiol, ond yn ymarferol, mae'n wylidwrs ac yn wan wrth ei rhoi ar waith. Ar y llaw arall, yng Nghymru, mae fframweithiau presennol yn dangos bod uchelgais a bwriad ar gyfer byd natur yn cael eu hatal oherwydd diffyg arweinyddiaeth a chyllid.

Er yr heriau hyn, mae arwyddocâd yr argyfwng ecolegol yn cael ei gydnabod fwyfwy, a hefyd fel mater o ddiogelwch gwladol. Fel y mae'r adroddiad hwn yn mynd yn ei flaen i ystyried, mae dull cydweithredol Rewilding Britain yn ein rhoi mewn sefyllfa i arwain a hwyluso datrysiadau i'r problemau mwyaf brys hyn.



"NID YW ARAFU DIRYWIAD BYD NATUR YN DDIGON. Y NOD YW ADFER A DAD-DDOFI'R BYD NATURIOL."





DAD-DDOFI'R SYSTEM

Ar gyfer cyflawni ein cenhadaeth, mae angen i ni ddad-ddofi'r system sy'n llywio'r byd o'n cwmpas.

Mae ein dull yn canolbwyntio ar dri maes cysylltiedig: datblygu mudiad, dylanwadu ar bolisi ac ariannu prosiectau i newid yr amodau sy'n caniatáu i ddad-ddofi fynd rhagddo ym mhobman. Rydym ym mlwyddyn gyntaf ein strategaeth newydd ac rydym yn dysgu wrth i ni arbrofi, addasu a dad-ddofi ein ffyrdd ein hunain o weithio a meddwl.

DATBLYGU MUDIAD DAD-DDOFI

Wrth wraidd ein gwaith y mae'r Rhwydwaith Dad-ddofi sy'n cynnwys mwy na 1,000 o brosiectau dad-ddofi ar y tir ac yn y môr. Mae 250 o brosiectau ar raddfa mwy a mwy na 20 o rwydweithiau lleol yn rhan o'r 1,000 hwnnw. Mae tirfeddianwyr, ffermwyr, cyrff anllywodraethol, grwpiau cymunedol a phrosiectau morol yn rhannu cysylltiadau, arbenigedd a chipolygon gwerthfawr. Felly mae gwersi'n cael eu rhannu, yn hytrach na'u cyfyngu i safleoedd unigol. Mae'r cysylltiadau hyn yn ehangu dad-ddofi yn bellach nag y gallai unrhyw brosiect unigol. Dyma sut y mae syniadau da yn cael eu rhannu a magu nerth. Yn ogystal â hyn, rydym yn ysgogi dealltwriaeth a chefnogaeth y cyhoedd drwy ymgyrchoedd, deisebau a chyfryngau er mwyn creu'r amodau cymdeithasol y gall dad-ddofi ffynnu ynddynt.

DYLANWADU AR BOLISI

Mae dim ond yn bosibl i ddad-ddofi ehangu i gyrraedd ein nod o 30% os yw'r rheolau newid. Felly rydym yn gweithio i sicrhau bod llywodraethau ledled Prydain yn cydnabod dad-ddofi fel ymateb go iawn, y gellir buddsoddi ynddo ac effeithiol o ran cost i'r argyfwng natur a hinsawdd. Rydym yn ymgysylltu â llunwyr penderfyniadau yn San Steffan, y Senedd a Senedd yr Alban, yn llunio eu briffiau, yn ymateb i ymgynghoriadau, yn comisiynu ymchwil ac yn dangos tirweddau a morweddau dad-ddofi ffyniannus i wleidyddwyr. Gyda'i gilydd, mae'r cyfuniad hwn o ymgyrchu cyhoeddus a gwaith eirioli i symud y fframweithiau cyfreithiol, gwleidyddol ac ariannol yn penderfynu sut y caiff tir ac arfordir Prydain eu hadfer.

ARIANNU ARLOESI AC EHANGU

Mae ein Cronfa Arloesi Dad-ddofi yn cynnig cyllid sbarduno cynnar ar gyfer ystod o fentrau ar y tir ac yn y môr. Mae'r Gronfa Her Dad-ddofi, ar y llaw arall, yn cynnig arian sylweddol i un prosiect uchelgeisiol pob blwyddyn er mwyn cyflawni buddion ecolegol, cymdeithasol, ac economaidd hirhoedlog ar raddfa. Mae'r ddwy gronfa'n gweithio fel cyflymwyr, sy'n helpu eu derbynwyr i ddatgloi rhagor o gyllid, felly mae pob punt a gaiff ei buddsoddi yn lluosu ar gyfer byd natur a chymunedau. Yn sail i hynny oll y mae ein cronfa dystiolaeth, sy'n helpu i ddangos beth sy'n gweithio a galluogi'r sector i ddysgu gan yr hyn nad yw'n gweithio.

EIN NODAU 2030


Mae gennym bedwar nod i alluogi dull newid systemau, yn ogystal â phumed i gryfhau ein sylfeini.



NORMALEIDDIO DAD-DDOFI



GALLUOGI AIL-DDOFI



EHANGU DAD-DDOFI



ARLOESI DAD-DDOFI



CRYFHAU EIN SYLFEINI



EIN DULL NEWID SYSTEMAU

PŴER


Mae newidiadau mewn strwythurau a rheolau, megis polisïau, cyllid ac ymchwil, yn ysgogi newid trawsnewidiol a ddaw â dad-ddofi i'r brif ffrwd, dan arweiniad tystiolaeth gadarn o'i fuddion ar gyfer byd natur, pobl, a chymunedau.

YMARFER

Mae mudiad dad-ddofi cynyddol yn cyd-greu a phrofi'r hyn sy'n gweithio. Daw arloesi ar y blaen wrth i fentrau blaengar ddatgloi posibiliadau newydd a dangos yr hyn y gellir ei gyflawni ar raddfa.

CYHOEDDUS

Caiff dad-ddofi ei groesawu yn y drafodaeth gyhoeddus fel ffordd bwerus, ysbrydoledig a chynhyrchiol o ddefnyddio'r tiroedd a'r moroedd, sydd â phobl a chymunedau wrth ei gwraidd.





EIN GWELEDIGAETH

Ein gweledigaeth yw gweld dad-ddofi yn ffynnu ar hyd a lled Prydain, gan ein hail-gysylltu â'r byd naturiol, cynnal cymunedau a mynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd ac ecolegol.

EIN CENHADAETH

Ein cenhadaeth yw hyrwyddo dad-ddofi ym Mhrydain, gan weithredu fel cyflymydd ar gyfer dadl a gweithredu a chyfleu pŵer gweithio gyda natur i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd ac ecolegol.

EIN HUCHELGAIS

Ein huchelgais 2030 yw gweld dad-ddofi'n cael ei ehangu'n sylweddol, gan gefnogi amrywiaeth cyfoethog o gynefinoedd a rhywogaethau ar draws 30% o diroedd a moroedd Prydain. Bydd hyn yn caniatáu i fyd natur ffynnu wrth gyflawni buddion ecolegol, economaidd a chymdeithasol sylweddol i bobl a chymunedau, a chyda nhw.



EIN

HEFFAITH

SUT RYDYM WEDI NEWID Y SYSTEM



CYHOEDDUS

Ein nod erbyn 2030

Caiff dad-ddofi ei groesawu yn y drafodaeth gyhoeddus fel ffordd bwerus, ysbrydoledig a chynhyrchiol o ddefnyddio'r tiroedd a'r moroedd, sydd â phobl a chymunedau wrth ei gwraidd.

Ein hamcan

NORMALEIDDIO DAD-DDOFI

Caiff dad-ddofi ei groesawu yn y drafodaeth gyhoeddus fel ffordd ysbrydoledig, ddichonol a chynhyrchiol o ddefnyddio'r 30% o dir a môr sydd â phobl a chymunedau wrth ei gwraidd.





DATBLYGU'R SYLFEINI AR GYFER MUDIAD

Mae ein huchelgais yn feiddgar. Rydym eisiau gweld dad-ddofi yn cael ei groesawu fel ffordd ysbrydoledig, ddichonol a mwy cynhyrchol o ddefnyddio 30% o diroedd a moroedd Prydain, sydd â phobl a chymunedau wrth ei gwraidd. Mae blwyddyn gyntaf ein strategaeth wedi canolbwyntio ar wrando ar yr hyn y mae gan bobl i'w ddweud, profi beth sy'n uniaethu â nhw, a rhoi'r strategaethau cywir ar waith i ddatblygu mudiad cenedlaethol. Mae'r arwyddion cynnar yn gadarnhaol, ynghyd â chronfa gefnogaeth fwy amrywiol, sy'n prysur dyfu, yn ogystal â llwybr clir sy'n seiliedig ar dystiolaeth ar gyfer y blynyddoedd nesaf.

GWRANDO CYN ARWAIN

Y cam cyntaf yw gwrandao, bob amser. Cynhalion ni arolwg cynrychiadol o 1,200 o bobl ledled Cymru, Lloegr a'r Alban. Fe wnaethom yn fwriadol gynnwys cymunedau sy'n cael eu heithrio o'r sgwrs yn rhy aml. O'r data, cawsom weld pwy sydd fwyaf parod i gefnogi dad-ddofi a pham, a'r hyn sy'n dal pobl eraill yn ôl, gan ein helpu i roi sglein ar ein gwaith ymgyrchu a rhoi sylfaen i ni fesur yn ei herbyn. Gwrandawon ni ar gefnogwyr presennol hefyd. Roedd eu hymateb i'r arolwg yn hen ragori ar feincnod y diwydiant. Mae popeth sy'n dod nesaf yn seiliedig ar y dystiolaeth hon.



Mae darparu cenedlaethau'r dyfodol â dealltwriaeth ddofn o ddad-ddofi yn hanfodol i sicrhau ei effaith barhaol

Y NEWIDIADAU YR HOFFEM EU GWELD

Cyngbreiriau amrywiol yn cydweithio i symud y naratif

Tyfu cefnogaeth y cyhoedd ar gyfer dad-ddofi

Cenedlaethau'r dyfodol yn croesawu dad-ddofi

Lleisiau amrywiol yn hyrwyddo dad-ddofi



Y FLWYDDYN YN ÔL EFAITH

158,000+

o ddilynwyr ar
y cyfryngau
cymdeithasol,
cynnydd o 10%

309,000+

wedi ymweld â'r
wefan

66,000+

o gefnogwyr y gellir
cysylltu â nhw,
cynnydd o 22%

MEITHRIN PŴER POBL

Cefnogaeth gyhoeddus yw'r sylfaen y caiff popeth arall ei ddatblygu ohoni, wrth i syniad cyffredin ddod yn ewyllys gwleidyddol, ac ewyllys gwleidyddol yn newid ar y tir. Felly eleni ein nod yw tyfu, amrywio a dyfnhau ein cefnogaeth.

Llwyddon ni i gyrraedd cynulleidfaoedd newydd drwy lawer o ffyrdd gwahanol yn ystod y flwyddyn. Aethon ni i nifer o ddigwyddiadau byw, gan gynnwys The Wild Summit ym Mryste, sef cynhadledd natur newydd a ddaeth â mwy nag 1,200 o bobl ynghyd. Yn Llundain, cawsom gwmni mwy na 7,000 o gyfranogwyr, yn bennaf o'r gymuned fusnes, ar gyfer y Blue Earth Summit.

Roedd ein gweithgarwch digidol yn canolbwyntio ar gasglu cynrychiolaeth fwy perthnasol o ddad-ddofi, yn ogystal â chreu cynnwys fideo newydd. Roedd hyn yn cynnwys ein ffilm a oedd yn galw am ddyfodol llai dof, a gafodd ei dangos yng Ngwobrau edie ac a gyrhaeddodd miloedd o wylwyr ar-lein. Dywedodd un ohonynt, "Rydym angen sefydliad elusennol nad oes ganddo ofn cymryd camau beiddgar ar gyfer byd natur."

Uchafbwynt llwyddiannau'r flwyddyn oedd ymgyrch a'n gwelodd yn tyfu ein cronfa o gefnogwyr dad-ddofi yn sylweddol (mae ein  stori ynghylch newid ar gael ar dudalen 15). Mae'r gwersi sy'n deillio o'r ymgyrch hon yn ein helpu i ddatblygu'r mudiad, ysbrydoli rhagor o bobl i roi, dylanwadu ar lunwyr penderfyniadau a pherswadio pobl eraill i gefnogi dad-ddofi a gweithredu.



DEGAWD O OBAITH GWYLLT

Wrth ddathlu degawd o obaith gwyllt, roedd ein digwyddiad 10 mlynedd yn cynnig carreg filltir bwysig i ni ddiolch, magu nerth newydd ac ysbrydoli, wrth i ni alw am 30% o ddad-ddofi ledled Prydain. Roedd cyrraedd yr adeg hon yn ein hanes yn dangos sut rydym wedi helpu dad-ddofi i dyfu o fod yn syniad arbenigol i fudiad cenedlaethol, a hynny wrth bennu'r angen brys am ragor o fuddsoddi a chefnogaeth wleidyddol.

Siaradodd ein cadeirydd sefydlol, Syr Charlie Burrell, y mae ei waith yn Knepp yn dangos y gall dad-ddofi fod yn hynod effeithiol ar raddfa, yn ogystal â'r ceidwad bywyd gwyllt trefol, Lira Valencia a Jack Durant o Youngwilders. Ynghyd â'r cyflwynydd, Nish Kumar, George Monbiot, a'r cantorion Karine Polwart a Sam Smith, daeth grŵp deinamig o bobl o genedlaethau gwahanol at ei gilydd i feithrin momentwm ar gyfer y degawd nesaf.

Rhagor o wybodaeth: rewildingbritain.org.uk/10-years



Gwnaeth ein dathliad 10 mlynedd uno grŵp deinamig o bobl o genedlaethau gwahanol, gan gynnwys Syr Charlie Burrell a Lira Valencia



"Mae'r dyfodol rwyf eisiau ei weld yn un lle y mae amrywiaeth anhygoel byd natur yn bodoli yn lle dyfroedd llygredig a thirweddau dienaidd. Lle y mae bywyd gwyllt, o afancod prysur i wiwerod coch bywiog, yn ffynnu - gan helpu i atgyweirio ecosystemau diffygiol a chreu dyfodol gwyrddach, cyfoethocach, ac iachach i bawb."

Y digrifwr, Nish Kumar, a gynhaliodd ein digwyddiad dathlu 10 mlynedd ym mis Tachwedd 2025

CRYFACH AR Y CYD, LEDLED CENHEDLOEDD

Mae dad-ddofi'n datblygu'n gynt pan nad ydym yn ei gyflawni ar ein pen ein hunain. Eleni, fe wnaethon ni ehangu ein cydweithrediaidau sy'n cryfhau ein llais ac yn arwain dad-ddofi i gymunedau gwahanol ac ar hyd a lled y tair cenedl.

Yng Nghymru, roedden ni'n rhan o sefydlu Cynghrair Ailwylltio Cymru newydd, sef cynghrair gynyddol o sefydliadau sy'n ymgychu gyda'i gilydd i adfer byd natur a chryfhau cymunedau gwledig (mae ein [stori ynghylch newid ar gael ar dudalen 21](#)). Yn Lloegr, ymunon ni â 97 o sefydliadau eraill fel rhan o Wildlife and Countryside Link i ymgychu yn erbyn treillio gwely'r môr, a daethon ni ynghyd â thros 40 o bartneriaid yn yr ymgyrch Dŵr Glân Nawr ar ran naw miliwn o gefnogwyr. Yn yr Alban, cryfhaon ni ein gwaith gyda'r Scottish Rewilding Alliance a chynnig safbwyntiau newydd i'r achos, wrth i bobl fel yr actor, Alan Cumming, gefnogi.

Mae'r llais sy'n galw am ddad-ddofi'n cryfhau, sy'n cynnwys digrifwyr, artistiaid, awduron, arweinwyr cymunedol ac ymgyrchwyr ifanc, a chyd'n gilydd rydym yn cyrraedd cynulleidfaoedd newydd na fyddem yn gallu eu cyrraedd ar ein pen ein hunain. Mae pob llais newydd yn helpu dad-ddofi i deimlo'n llai arbenigol ac yn fwy cyffredin.

Dyma sut y mae mudiad yn magu gwreiddiau, wrth i'r sylfaen gryfhau i fod yn ymrwymiad gwleidyddol a throi'n gamau go iawn ar y tir, sef newid allweddol yn y system gyffredinol rydym yn ceisio ei symud.



YORKSHIRE REWILDING NETWORK

Mae'r Yorkshire Rewilding Network, sy'n cael ei gefnogi gan Rewilding Britain, wedi treialu dau Hwb Dad-ddofi Cymunedol, gan gysylltu pobl yn yr ardal. Drwy ganolbwyntio ar le yn hytrach na dad-ddofi fel syniad haniaethol, llwyddodd yr hybiau i gyrraedd amrywiaeth llawer yn ehangach o bobl. Mae ei ddull cynhwysol yn cynnwys prosesau naturiol ar unrhyw raddfa, felly mae unrhyw beth o gornel fach i ystad fawr yn perthyn.

"Mae pobl yn teimlo'n fwy hyderus i siarad am ddad-ddofi, ac yn fwy hyderus i roi cynnig arno," dywedodd Sarah Mason, Cadeirydd Ymddiriedolwyr y Rhwydwaith. "Mae eu llesiant wedi gwella drwy fod yn fwy cysylltiedig, yn rhan o gymuned ddad-ddofi. Mae'n obeithiol."

Rhagor o wybodaeth: rewildingbritain.org.uk/yorkshire



Mae Yorkshire Rewilding Network yn dweud bod pobl yn teimlo'r cyffro mwyaf ynghylch dad-ddofi mewn digwyddiadau wyneb yn wyneb






STORI YNGHYLCH NEWID

YSGOGI PŴER POBL AR GYFER DAD-DDOFI

Mae ein hymgyrch gefnogwyr gyntaf ar raddfa fawr yn dangos ein dull newid systemau ar waith. Fe dyfon ni gefnogaeth y cyhoedd, ac yna'i defnyddio i roi pwysau gwleidyddol er mwyn dangos sut y gall un ymgyrch newid y system. Cymerwch olwg fanwl ar y diagram yn ogystal â'r stori lawn ar y dudalen nesaf.

Miloedd o gefnogwyr yn cysylltu ag Aelodau Seneddol, sy'n gwrthio agenda dad-ddofi yn senedd y DU





DWEUD IA... A GWEITHREDU

Am gyfnod o bum wythnos, cynhalion ni ein hymgyrch ddigidol gyntaf ar raddfa fawr ar gyfer profi sut y gallwn dyfu'r mudiad o gefnogwyr dad-ddofi. Treialon ni ystod o negeseuon gwahanol i ysbrydoli pobl i ychwanegu eu henwau o blaid dad-ddofi, dod yn gefnogwyr Rewilding Britain a mynd yn eu blaen i roi, rhannu gyda'u rhwydweithiau ac edrych ar ein gwefan i ddysgu rhagor. Fe gadarnhaodd yr hyn sydd wedi bod yn ganolog i'n llais bob amser: bod neges yn seiliedig ar obaith yn gweithio.

Rhagorodd yr ymateb ar ei disgwyliadau uchaf hyd yn oed. Ymhen pum wythnos yn unig, croesawon ni fwy na 16,000 o gefnogwyr newydd, gan dyfu ein cronfa 25%. Wrth i bob cefnogwr newydd ychwanegu at ein llais cyfunol, mae'n gwneud yr alwad gyhoeddus am ddad-ddofi yn fwy anodd i lunwyr penderfyniadau ei hanwybyddu.

A thyfu'r gefnogaeth oedd megis dechrau. Yn Lloegr, anfonodd gefnogwyr fwy na 7,000 o negeseuon e-bost uniongyrchol at eu Haelodau Seneddol, gan gyrraedd cynrychiolwyr ac ysgogi cwestiynau seneddol sy'n cadw dad-ddofi ar yr agenda. Yn yr Alban, fe wnaethon ni wahodd pobl i ymuno â ni yn yr Hustyngau Gobaith i Fyd Natur cyntaf erioed (astudiaeth achos ar dudalen 19). Yng Nghymru, cafodd cefnogwyr eu hannog i gofrestru ar gyfer cylchlythyr Cynghair Ailwylltio Cymru (mae'r [📍](#) stori ynghylch newid ar gael ar dudalen 21).

Mae'r ymgyrch yn dangos sut y gallwn ddefnyddio ton o gefnogaeth gyhoeddus i feithrin sylw gwleidyddol ar draws tair cenedl, yr union fodel rydym yn ei ddefnyddio i newid y system. Dysgon ni lawer hefyd, gan gynnwys sut i ymateb ar y cyfryngau cymdeithasol a lle y mae ein seilwaith technegol angen datblygu, y cwestiynau y mae'r cyhoedd yn eu holi gan amlaf a'r hyn sy'n apelio i gynulleidfaoedd ieuengach yn bennaf. Bydd hyn yn ein helpu i lywio ymgyrchoedd pwerus yn y blynyddoedd i ddod, sy'n gwneud ein galwadau am newid yn amhosib i'w hanwybyddu.

CIPOLWG

16,000+

o gefnogwyr newydd ymhen pum wythnos

25%

o dwf yn ein cronfa gefnogwyr

7,000+

o e-byst i Aelodau Seneddol yn Lloegr



"YN Y 50 MLYNEDD O FY MYWYD, RWYF WEDI GWELD CYMAINT O GOLLI O RAN BYWYD GWYLLT A CHYNEFINOEDD. RWYF AM I FY WYRION WELD A RHYFEDDU AT Y PETHAU Y'U GWELAIS I A GWIRIONI ARNYNT PAN YN ENETH FACH."

Dee, rhoddwr ymgyrch





PŴER

Ein nod erbyn 2030

Newid mewn strwythurau a rheolau, megis polisïau, ariannu ac ymchwil, ysgogi newid trawsnewidiol sy'n tynnu dad-ddofi i'r brif ffrwd, dan arweiniad tystiolaeth gadarn o'i fuddion ar gyfer byd natur, pobl, a chymunedau.

Ein hamcan

GALLUOGI DAD-DDOFI

Mae dad-ddofi wedi'i wreiddio mewn technoleg, ymchwil, ariannu, deddfwriaeth a pholisi'r brif ffrwd, gan arwain pontio tuag at ddad-ddofi 30% o diroedd a moroedd ar hyd a lled Prydain.





TROI CEFNOGAETH GYNYDDOL YN SYLW GWLEIDYDDOL

Mae pŵer ynghylch dylanwadu ar y bobl a'r sefydliadau sy'n penderfynu sut y caiff ein tiroedd a'n moroedd eu defnyddio. Ym mlwyddyn gyntaf ein strategaeth newydd, ein nod oedd lobio dros faterion unigol yn ogystal â mentro ar daith i newid y system ei hun, gan ennill ymrwymadau gwleidyddol, meithrin cynghreiriau, tyfu ein hygredd fel llais arbenigol a dibynadwy, a gosod y sylfeini ar gyfer dull newydd i gyllid dad-ddofi. Dyma fegis dechrau, ond rydym eisoes yn meithrin momentwm ac yn gweld ychydig o lwyddiannau cynnar.

ENNILL YMRWYMIADAU GWLEIDYDDOL AR DRAWS PRYDAIN

Mae newid go iawn yn golygu newid y rheolau, ac eleni rydym wedi helpu i lywio polisi ar hyd a lled mwy nag un genedl. Yn yr Alban, drwy'r Scottish Rewilding Alliance, helpon ni i ddiwygio'r gyfraith am yr ail dro. Mae'r Bil Diwygio Tir bellach yn mynnu bod tirlfeddianwyr yn dangos sut y maent yn rheoli tir i adfer bioamrywiaeth. Yng Nghymru, oherwydd gwaith meithrin cysylltiadau â chleientiaid fe wnaeth Cyfoeth Naturiol Cymru gydnabod dad-ddofi fel un o'r adnoddau ar gyfer gwella arfordiroedd. Yn Lloegr, cafodd y Fframwaith Defnydd Tir ei gyhoeddi gan Lywodraeth y DU, gan gynnig bod 6% o Loegr - a 9% o dir fferm - yn pontio i gyflawni buddion i'r hinsawdd a byd natur yn bennaf. Arweiniodd gefnogwyr Rewilding Britain



Cynhalion ni ddigwyddiad seneddol gyda'r Prosiect Missing Lynx i hyrwyddo ail-gyflwyno lyncsod

Y NEWIDIADAU YR HOFFEM EU GWELD

Cyllid ac ariannu teg a sefydlog yn cymell dad-ddofi

Sefydliadau dylanwadol yn mabwysiadu ac eirioli dros ddad-ddofi

Ymrwymadau gwleidyddol i'n gofyn manifesto am 30% o ddad-ddofi

Sefydliadau ymchwil yn blaenoriaethu ymchwil sy'n gysylltiedig â dad-ddofi





Y FLWYDDYN YN OL EFFAITH

6,000+

o gefnogwyr wedi'u hysgogi mewn ymateb i ymgynghoriad Fframwaith Defnydd Tir Lloegr

10,000

o lofnodion ar Siarter Cenedl Dad-ddofi Alban

6

o ymatebion i ymgynghoriad a gyflwynwyd gan Rewilding Britain

y gwaith o ran helpu i amddiffyn y cam cyntaf hwn rhag pwysau allanol cryf (astudiaeth achos i'w gweld ar dudalen 20). Mae gan bob cenedl ei gwleidyddiaeth ei hun, felly rydym yn addasu ein dull ar gyfer y lle y mae'r cyfle am ddad-ddofi ar ei orau.

CYNGHREIRIAU GYDAG EFFAITH LUOSOG

Ni all unrhyw sefydliad newid system ar ei ben ei hun. Felly rydym yn gweithio drwy gynnull eraill, gan feithrin cynghreiriau sy'n gwneud yr alwad am ddad-ddofi yn uwch nag y gallem ei rheoli ar ein pen ein hunain, wrth helpu dad-ddofi i ddod yn achos y mae sefydliadau uchel eu parch yn fodlon ei gefnogi.

Un o'r datblygiadau mwyaf sylweddol i gyflawni hyn oedd Cyngrhair Ailwylltio Cymru, lle daethon ni â chynghrair newydd o sefydliadau ac unigolion at ei gilydd i greu mudiad sy'n tyfu'n gyflym sy'n gweithio i adfer byd natur a chymunedau gwledig (stori [ynghylch newid](#) ar dudalen 21).

Yn yr Alban, gwnaeth ein gwaith drwy'r Scottish Rewilding Alliance sbarduno cyfleoedd go iawn. Oherwydd stondin Cenedl Ailwylltio y tu mewn i Senedd yr Alban, cawson ni ymgysylltu â mwy na 45 o Aelodau Senedd yr Alban drwy'r Siarter Cenedl Dad-ddofi, sydd bellach wedi sicrhau 10,000 o lofnodion. Sicrhodd ein hygreddd cynyddol sedd i ni mewn byrddau crwn plaid ar gyfer llywio Bil Amgylchedd Naturiol yr Alban, wrth i bleidiau gyflwyno diwygiadau ar ein rhan. Yn sgil yn ein gwaith ymgyrchu a dylanwadu penodol, fe newidion ni ddwy gyfraith yn uniongyrchol a chyflawni ymrwymadau pwysig



GOBAITH I FYD NATUR: HUSTYNGAU DAD-DDOFI

Yn y cyfnod cyn etholiadau Holyrood, ein nod oedd cyflwyno dad-ddofi i ymgeiswyr a oedd yn gofyn i bobl yr Alban am eu pleidleisiau. Ar Ddiwrnod Dad-ddofi'r Byd, fel rhan o'r Scottish Rewilding Alliance, cynhalion ni hustyngau dad-ddofi cyntaf y wlad, gan ddod â gwleidyddion o flaen cynulleidfda o 200 i ateb cwestiynau pleidleiswyr. Dyma oedd uchafbwynt ymdrech enfawr, gydweithredol. Erfyniodd filoedd o bobl ar ymgeiswyr i gefnogi'r Siarter Cenedl Dad-ddofi, wrth i'n camp weledol Green means Go! bwerus ddod â 100 o bobl i'r Senedd. Cafodd ein hymgyrch ei chefnogi gan gynnwys dylanwadwyr Saesneg a Gaeleg ac a sicrhodd ei bod yn cael ei weld miloedd ac weithiau, a chroesawodd ein hymgyrch lwyth o gefnogwyr newydd. Gyda'i gilydd, gwnaeth yr ymchwydd o gefnogaeth sicrhau na allai'r rhai a oedd yn chwilio am sedd anwybyddu dyfodol byd natur.



Tynnodd ein hustyngau dad-ddofi 200 o bobl at ei gilydd, gan gyrraedd y penawdau yng nghanol y cyfnod etholiad prysur



gan y llywodraeth o ran trydedd gyfraith. Gwelson ni ddad-ddofi yn dechrau magu gwreiddiau mewn sefydliadau dylanwadol, megis grŵp Dad-ddofi Forestry England, wrth i gyrff cyhoeddus uchel eu parch gynnwys dad-ddofi yn fwyfwy yn sut y maent yn cynllunio a rheoli'r tir y maent yn gofalu amdano. Mae pob cynghrair newydd a phob cefnogwr sefydliadol newydd yn helpu i newid yr hyn sy'n cael ei ystyried yn normal, gan symud dad-ddofi tuag at y brif ffrwd pan mae'n ymwneud â sut y mae Prydain yn trin ei thiroedd a'i moroedd.



"Rwy'n falch ein bod wedi ail-gyflwyno eryrod môr i dde Lloegr am y tro cyntaf ers degawdau. Fel y gwyddoch, Mr Llefarydd, mae pobl Prydain wrth eu bodd â byd natur a dad-ddofi."

Emma Reynolds, Ysgrifennydd Gwladol dros yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig, yn siarad yn Nhŷ'r Cyffredin

MEITHRIN HYGREDEDD A LLYWIO'R HYN A DDAW NESAF

Er mwyn dylanwadu, mae'n bwysig meithrin hygrededd. Ein Fframwaith Monitro Dad-ddofi yw'r adnodd sy'n galluogi prosiectau i ddangos p'un a ydy dad-ddofi yn cael effaith mewn gwirionedd, ac mae wedi sicrhau statws gwirioneddol i ni gydag asiantaethau a chyrrff ymchwil (mae [Llywodraeth](#) stori ynghylch newid ar gael ar dudalen 23). Buddsoddon ni mewn amlygrwydd hefyd, gyda phresenoldeb cadarn ar draws y cylch o gynadleddau gwleidyddol. Cynhalion ni ein derbyniad cyntaf yn San Steffan i lansio ein hadroddiad Wilder Seas, gan gyflwyno dad-ddofi morol i Aelodau Seneddol, cymheiriaid a chymunedau arfordirol. Ar hyd y ffordd, rydym wedi dysgu cryn dipyn ynghylch sut i dywys llunwyr penderfyniadau ar yr un daith â ni.

Dechreuon ni hefyd feithrin yr achos ariannol ar gyfer dad-ddofi ar raddfa. Gan weithio gyda phartneriaid ar draws y sector preifat, y sector cyhoeddus a'r trydydd sector, dechreuon ni ddatblygu ffordd newydd o fuddsoddi mewn dad-ddofi, un sy'n rhoi tirweddau a chymunedau byw yn gyntaf ac yn dylunio'r cyllid o'u cwrdd. Yn fwyfwy, mae ein gwaith yn cael ei gysylltu. Mae cefnogwyr yn ysgrifennu at lunwyr penderfyniadau, ac rydym yn mynd â'r llunwyr penderfyniadau hynny i weld safleoedd dad-ddofi er mwyn iddynt weld y canlyniadau dros eu hunain. Eleni, rydym wedi cynnal nifer o ymweliadau â safleoedd ar gyfer llunwyr polisi, gan gynnwys pobl flaenllaw megis y Cynweinidog Natur, Mary Creagh, a chadeirydd y Pwyllgor Dethol ar Archwilio Amgylcheddol,

Toby Perkins. Mae cefnogaeth gyhoeddus, pŵer gwleidyddol ac ymarfer ar y tir yn atgyfnerthu ac yn cryfhau ei gilydd fel cynllun ar gyfer y gwaith sydd i ddod.



FFRAMWAITH AR GYFER DEFNYDD TIR

Pan ymgynghorodd Llywodraeth y DU ar Fframwaith Defnydd Tir cyntaf Lloegr, ymatebon ni gyda chyflwyniad seiliedig ar dystiolaeth wedi'i ategu gan ein model 30% o ddefnydd tir ac ysgogi mwy na 6,000 o gefnogwyr i gyflwyno'r achos i Defra. Roedd pedwar ym mhob pump o'r e-byst ynghylch yr ymgynghoriad a gafodd yr adran amgylcheddol yn rhai gan gefnogwyr Rewilding Britain. Pan gafodd y Fframwaith ei gyhoeddi yn 2026, roedd yn cyfleu'r dylanwad hwnnw, wrth i 6% o dir Lloegr gael ei ddynodi i ganolbwyntio ar fyd natur a'r hinsawdd, yn ogystal â chynghorau'n cael eu hannog i roi tir i gymunedau a thaliadau'n cael eu cyfeirio i'r lleoedd y maent yn helpu byd natur yn bennaf.

Rhagor o wybodaeth: rewildingbritain.org.uk/LUF




Bydd y Fframwaith Defnydd Tir yn llywio defnydd tir Lloegr am y 25 mlynedd nesaf



STORI YNGHYLCH NEWID

LLYWIO DYFODOL LLAI DOF I GYMRU

Yng Nghymru, rydym wedi canfod momentwm drwy beidio â gwneud pethau ar ein pen ein hun - fel aelod o bartneriaeth newydd dan arweiniad Cymru, Cynghrair Ailwylltio Cymru, sef sefydliad gyda'r pŵer torfol i newid y sgwrs. Cymerwch olwg fanwl ar yr enghraifft go iawn hon o newid system ar waith - drwy'r diagram yn ogystal â'r stori lawn ar y dudalen nesaf.





CYMRU. CYFLAWNI RHAGOR, GYDA'N GILYDD

Rydym yn falch iawn o fod yn aelod craidd o Gynghrair Ailwylltio Cymru a sefydlwyd yn ddiweddar, sef mudiad cynyddol i uno sefydliadau, tîrfeiddianwyr, cymunedau a llunwyr penderfyniadau fel rhan o gynghrair dan arweiniad Cymru sydd y tu ôl i adfer byd natur. Mae hyn wedi atgyfnerthu ein cred mai cydweithio yw'r ffordd orau o feithrin y pŵer a'r momentwm i gyflawni dad-ddofi.

O gyfarfod cyntaf gyda 12 o sefydliadau sefydlol hyd at ei lansio ym mis Mawrth 2026, mae'r Gynghrair wedi datblygu i fod yn rym credadwy gyda brand ei hun, cyfraniad dwyieithog a llais cynyddol. Cafodd ei adroddiad lansio, Gwylltio: Y Ffordd Gymreig, ei ysgrifennu gan Jon Moses, awdur ac aelod o'r Gynghrair sy'n cynrychioli Right to Roam. Aeth y cyhoeddiad i'r afael â'r cysylltiad dwfn rhwng diwylliant Cymru a dad-ddofi, gan osod y naws ar gyfer dad-ddofi sydd wedi'i wreiddio mewn lle ac iaith, dan arweiniad cymunedau a heb ei orfodi o'r tu allan.

Mae cronfa gefnogwyr sy'n prysur dyfu yn rhoi diddordeb ac awydd am newid ar waith, gan gefnogi addewid ymgyrch ar gyfer Aelodau'r Senedd a etholwyd a helpu i gynnwys dad-ddofi yn y sgwrs genedlaethol. Mae lleisiau amrywiol wedi ymuno â'r alwad, sy'n cynnwys arweinwyr cymunedol a'r gantores Charlotte Church. Mae pleidlais ddiweddar wedi dangos bod 75% o gyhoedd Cymru o blaid dad-ddofi, wrth i 82% fod o blaid ail-gyflwyno rhywogaethau brodorol¹.

Cyn etholiadau'r Senedd, cyflwynodd y Gynghrair drosolwg clir i bleidleiswyr o safle dad-ddofi ym manifest o pob plaid, ac roedd dau fanifesto yn cynnwys dad-ddofi fel ymrwymadau polisi. Ar y tir, mae safle Tir Natur sy'n fwy na 480 hectar yn dangos yr hyn y gall dad-ddofi ar raddfa fawr ei gyflawni, wrth i Rwydwaith Dad-ddofi Lleol Dyffryn Gwy a Tir Pontypridd gyflymu camau gweithredu cymunedol.

Mae uchelgeisiau beiddgar yn cael eu sefydlu hefyd, gan gynnwys galwad i ddatgan Cymru fel Cenedl Ieuenctid Wledig gyntaf Ewrop. Dyma sut y mae mudiad yn datblygu, gydag un weledigaeth gyffredin, gan weithio tuag at ddyfodol llai dof wedi'i greu yng Nghymru, i Gymru, gan Gymru.

Rhagor o wybodaeth: rewildingalliance.cymru

"YN Y SAFLEOEDD DAD-DDOFI CYNTAF YNG NGHYMRU, MAE RHYWOGAETHAU A GOLLWYD EISOES YN DYCHWELYD. MAE HYN YN DESTUN LLAWENYDD: TYSTIOLAETH BOD BYWYD YN FFYNNU'N GYFLYM PAN FO'N CAEL HYD YN OED MÂN GYFLE."

Jon Moses, Gwylltio: Y Ffordd Gymreig

CIPOLWG

12

o sefydliadau sefydlol wedi uno yn y Gynghrair

800+

o ddilynwyr cymdeithasol yn y tair wythnos gyntaf

400+

o danysgrifwyr cylchlythyr yn y tair wythnos gyntaf

¹ YouGov / Canlyniadau Arolwg Rewilding Britain (2024)






STORI YNGHYLCH NEWID

DANGOS EFFAITH DAD-DDOFI

Mae'n anodd ehangu'r hyn na allwch ei fesur, felly eleni rydym wedi creu'r adnoddau i brofi bod gan ddad-ddofi fuddion i ecosystemau, economïau a chymunedau. Dyma'r dystiolaeth rydym ei hangen i berswadio cyllidwyr, llunwyr penderfyniadau ac amheuwy. Cymerwch olwg fanwl ar yr enghraifft go iawn hon o newid system ar waith - drwy'r diagram yn ogystal â'r stori lawn ar y dudalen nesaf.





Y DYSTIOLAETH I NEWID MEDDWL

Sut ydych chi'n gwybod bod dad-ddofi yn gweithio? Tan nawr, nid oedd ffordd gyffredin o ateb y cwestiwn hwnnw. Felly ar ôl dwy flynedd o weithio gydag ymarferwyr ac arbenigwyr o'r maes ecoleg a gwyddor gymdeithasol, yn ogystal â threialu mewn pum safle Rhwydwaith Dad-ddofi, cwblhaon ni Fframwaith Monitro Dad-ddofi cyntaf y DU. Mae'n ffordd ymarferol, effeithiol o ran cost i helpu prosiectau i ddweud a yw eu penderfyniadau yn wirioneddol adfer prosesau naturiol ac o fudd i bobl hefyd.

Yn ogystal â'r Fframwaith, rydym wedi datblygu platfform newydd sy'n tynnu data allweddol o brosiectau ar draws y Rhwydwaith Dad-ddofi, a'i droi yn gronfa dystiolaeth genedlaethol, fyw. Mae'r cwestiynau - sy'n cynnwys elfennau megis ailgyflwyno rhywogaethau, nifer y pennau sy'n pori, swyddi a grëwyd a'u heffaith ar y gymuned - hefyd ar gyfer helpu prosiectau i ddal ati gyda'u gwaith gan gyfoethogi eu taith ddad-ddofi.

Mae ein gwaith yn y maes hwn eisoes wedi dechrau sbarduno cyfleoedd, gan fod cyrff amgylcheddol allweddol ar draws Lloegr, Cymru a'r Alban yn awyddus i integreiddio'r Fframwaith i'w ffordd o feddwl, ac mae ein hygredd cynyddol yn ein tynnu i bartneriaethau academaidd, o bapurau a ysgrifennwyd ar y cyd i ymchwil a oruchwyliwyd ar y cyd. Eleni, cyhoeddodd pedwar aelod o'r Rhwydwaith eu hadroddiadau effaith eu hunain yn seiliedig ar ein methodoleg, wrth i'n tîm polisi ddefnyddio'r dystiolaeth i gyflwyno'r achos dros ddad-ddofi i lywodraethau ledled Prydain.

